**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1378
Ein cyf/Our ref LG/00680/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

22 Tachwedd 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref**,** ynghylch Deiseb P-06-1378 o'r enw 'Rydym am i gymorthdaliadau fferm gael eu hymestyn i arddwyr bach a marchnad.'

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y sector hwn ac eisoes yn darparu cymorth i alluogi ei ddatblygu. Mae'r cynlluniau Dechrau a Datblygu Garddwriaeth, a lansiwyd yn 2022, wedi'u cynllunio i helpu tyfwyr gyda buddsoddi mewn offer a thechnoleg newydd. Galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch. Nid oes isafswm o ran ardal i'w drin wrth ddyfarnu'r grantiau hyn, felly maent wedi bod o fudd i arddwyr ar raddfa fach a garddwyr marchnad.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn y dyfodol yn cael ei gynllunio i fod yn berthnasol i'r mwyafrif o fusnesau ffermio ar draws sawl sector yng Nghymru. Mae adborth i ymgynghoriadau blaenorol yn cadarnhau cytundeb y diwydiannau gyda strwythur sylfaenol y cynllun sy'n cynnwys cyfres o Gamau Gweithredu Cyffredinol sy'n berthnasol i bawb yn gyfnewid am Daliad Sylfaenol, gydag Opsiynau Dewisol a Chydweithredol ar gael i'r rhai sy'n dymuno mynd ymhellach.

Mae'r cymhwyster arfaethedig ar gyfer yr SFS yn cynnwys o leiaf tair hectar cymwys, wedi'i leihau o bum hectar o dan gynllun y Taliad Sylfaenol i wneud y cynllun yn hygyrch i gynhyrchwyr ar raddfa lai fel garddwyr marchnad. Ar gyfer busnesau sy'n gallu bodloni'r meini prawf hyn, mae cynigion ar gyfer Gweithredoedd Dewisol yn cynnwys *cymorth i sefydlu busnesau garddwriaethol newydd neu fentrau garddwriaethol newydd o fewn busnesau fferm sefydledig*. Mae'n annhebygol y bydd y Weithred Ddewisol hon ar gael ar unwaith pan fydd yr SFS yn dechrau yn 2025, ond bydd yn cael ei integreiddio yn y cynllun yn ystod y cyfnod pontio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adborth anecdotaidd gan randdeiliaid garddwriaethol yn awgrymu na fyddai rhai yn gallu cyflawni Gweithredoedd Cyffredinol SFS y byddai'n ofynnol i fusnesau eraill eu cyflawni gan na fyddai'n ymarferol cyflawni camau gweithredu ar gynefinoedd neu greu coetiroedd ar leiniau bach. Rydym wedi cynghori'r sector garddwriaethol i ymateb i ymgynghoriad SFS gydag awgrymiadau ar sut y gellid cefnogi eu sector o fewn model SFS, neu os oes potensial i gefnogi clystyrau o fusnesau garddwriaethol trwy haen Gydweithredol yr SFS.

Ni wneir unrhyw benderfyniadau dylunio terfynol ar y SFS nes i'r ymgynghoriad terfynol ddod i ben cyn bo hir.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**